

## Arfarnu gweithrediad y Siarter Iaith Gymraeg

Ysgol Ederm

Medi 2018 - Mehefin 2019

Y nod yw **hyrwyddo, cynnal a chynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan feithrin agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith a'r Hunaniaeth Gymreig.**

**Gweledigaeth yr ysgol : Ymrwymwn i ddatblygu disgyblion sydd yn gadael yr ysgol hon yn gweithio, chwarae a chymdeithasu yn hyderus trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ymfalchio yn eu hetifeddiaeth Gymreig.**

### Disgyblion

(Nodwch eich barn ynglŷn â gweithredu'r gofynion yn y blychau isod h.y. llwyddiannus ac effeithiol iawn/wedi profi llwyddiant/heb gael effaith amlwg)

	<b>EFYDD</b>	<b>ARIAN</b>	<b>AUR</b>
<b>Wrth i'r disgyblion a'r gweithlu gynllunio'n bwrpasol, mae'r gweithredu/gweithdrefnau ...</b>	<b>CYFLWYNO/SEFYDLU wedi'u cyflwyno ond heb gael effaith amlwg</b> <i>h.y. dim tystiolaeth bendant o newid mewn agweddau/ cynnydd yn nefnydd iaith ayyb</i>	<b>GWREIDDIO/DATBLYGU wedi profi llwyddiant</b> <i>h.y. tystiolaeth o newid mewn agweddau/ cynnydd yn nefnydd iaith ayyb ond bod rhagor o waith i'w gyflawni</i>	<b>CYNNAL/ARWAIN wedi profi'n llwyddiannus ac effeithiol iawn</b> <i>h.y. wedi cael effaith gadarnhaol wrth feithrin agweddau iach ac wrth gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol/gyda disgyblion o ysgolion eraill/rhieni/y gymuned leol ayyb</i>
<b>wedi grymuso a chefnogi medrau llafar/cynyddu defnydd o'r Gymraeg o fewn y dosbarth/iadau</b>  <i>Nodwch eich barn ynglŷn ag effaith y gweithredu trwy roi tic gyferbyn â'r blwch perthnasol e.e.wedi profi llwyddiant</i>			

## Tystiolaeth

- Siaradir Cymraeg naturiol bob dydd drwy'r dydd yn Ysgol Edern. Caiff popeth ei weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg yma.
- Ceir cyfnodau darllen dyddiol. Mae cyflenwad eang o lyfrau yn yr ysgol sy'n cael eu diweddarau'n gyson ac ychwanegir y llyfrau / cyfrolau diweddaraf yn flynyddol i'r casgliad.
- Gosodir cwestiwn annog sgwrs yn wythnosol yn yr ysgol er mwyn hybu geirfa / cystrawen gywir.
- Bydd y disgyblion yn dysgu sut i odli, cyflythrennu, defnyddio cymariaethau, berfau, idiomau, a geiriau disglair.
- Caiff hwinangerddi a rhigymau eu hail adrodd yn ddyddiol yn y CS.
- Defnyddir strategaethau Pie Corbett i ysgrifennu storiâu drwy ddysgu a chofio.
- Mae'r disgyblion yn cael cyfnod dangos a dweud wythnosol yn y CS.
- Bydd y disgyblion yn actio a pherfformio yn rheolaidd, e.e. yn y cwt gwisgo fyny.
- Mae'r disgyblion yn mwynhau y prynhawn pop Cymraeg bob dydd Gwener.
- Pencampwyr Darllen Dros Gymru 2018 (eto) – Caiff y disgyblion eu hyfforddi i drafod testun drwy ddefnyddio geiriau, idiomau a.y.b heriol. Mae safon y Gymraeg yn loyw iawn iawn. Llwyddodd y tim buddugol i gael marciau llawn yn y trafod yn 2018.
- Trefnir ymweliadau gan awduron, beirdd a pherfformwyr yn rheolaidd, e.e. Casia William bardd plant Cymru, Cwmni Drama Mega, Gweithdy gyda Myrddin ap Dafydd yn Nhy Newydd Llanystumdwy.
- Caiff yr arferiad o areithio a siarad cyhoeddus ei hybu yn CA2.
- Ymgomau / Partion lfaru, Cerdd Dant – Hybir rhai na fyddai'n perfformio fel arfer er mwyn meithrin hyder a bod yn gyfarwydd a gwaith llenyddol.
- Mae'r ysgol yn llwyddiannus yn y gystadleuaeth barddoniaeth Divine yn flynyddol. Bu'n llwyddiannus eto eleni.
- Bydd yr athrawon yn atgoffa'r disgyblion yn ddyddiol o'r angen i gyfoethogi gwaith ysgrifenedig a llafar gyda 'Geirfa Gwerth Chweil'.
- Mae wal weithredol yn y dosbarthiadau – Gwelir y 'Ddraig Hybu Iaith' sef Cledwyn Clodforwr Iaith Clodwiw, ar y waliau.
- Lefel 6 (Cymraeg) wedi ei gyrraedd eto eleni ac wedi ei gadarnhau yn y cymedroli.

**wedi grymuso a chefnogi medrau llafar/cynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ar y coridor, yn y neuadd ginio ac ar fuarth yr ysgol**

*Nodwch eich barn ynglŷn ag effaith y gweithredu trwy roi tic gyferbyn â'r blwch perthnasol*

## Tystiolaeth

### sy'n cadarnhau'r farn sydd wedi'i gosod ac effaith y gweithredu

- Mae'r disgyblion yn mwynhau'r gemau buarth, e.e. Llyffant llyffant, faint o'r gloch Mr blaidd a.y.b.
- Rydym yn sicrhau fod y 'Ddraig Hybu Iaith' yn cael lle amlwg ym mhob dosbarth er mwyn gloywi iaith plant yr ysgol.
- Rydym yn hyrrwyddo defnydd o iaith clodwiw, graenus a chyfoethog – idiomau, dywediadau, geiriau gwych.
- Mae'r ddraig hybu iaith yn dylwanadu ar y disgyblion tu allan i furiau'r dosbarth, e.e. ar y buarth, yn y neuadd ginio.

<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd disgyblion yn cywiro ei gilydd yn naturiol. Dengys arfarniad fod y disgyblion yn siarad Cymraeg naturiol gloyw, cyson ar y buarth ar draws yr ysgol.</li> </ul>			
<p><b>wedi grymuso a chefnogi medrau llafar/cynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg tu hwnt i fuarth yr ysgol/yn y gymuned leol</b></p> <p><i>Nodwch eich barn ynglŷn ag effaith y gweithredu trwy roi tic gyferbyn â'r blwch perthnasol</i></p>			
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Trefnodd y Cyngor Ysgol Eisteddfod Ysgol lwyddiannus iawn yn ystod Tymor yr Haf 2018. Cafodd pob disgybl gyfle i ganu a llefaru yn ogystal ac ysgrifennu, gwneud gwaith llaw a choginio. Daeth y gymuned leol i gefnogi'r Eisteddfod. Braff oedd gweld y neuadd yn llawn.</li> <li>• Trefnodd y Cyngor 'Baned a Chan Cymreig' ar gyfer y gymuned yn ystod y Tymor Diolchgarwch. Roedd y neuadd yn orlawn o Gymru Cymraeg a di- Gymraeg. Cafwyd bore llwyddiannus iawn a llwyddwyd i gasglu arian tuag at Cancr y Fron yr un modd.</li> </ul>			
<p><b>wedi sicrhau bod y mwyafrif o'r plant yn mwynhau, wedi meithrin perchnogaeth ac yn teimlo'n falch o'r iaith, eu hetifeddiaeth, diwylliant a'r hunaniaeth Gymreig</b></p> <p><i>Nodwch eich barn trwy roi tic gyferbyn â'r blwch perthnasol</i></p>			
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Cwricwlwm Cymreig yn rhan ganolog o fywyd yr ysgol a manteisir ar bob cyfle i drafod gwahanol agweddau a meithrin ymdeimlad o falchder yn yr iaith, diwylliant a'r traddodiadau Cymreig. Trwy'r Cwricwlwm ceir cyfleoedd mynych i drafod hunaniaith ac i feithrin agweddau iach tuag at yr iaith Gymraeg.</li> <li>• Mae'r disgyblion yn manteisio ar y cyfleoedd a ddaw i'w rhan, e.e. Y Sgwad Sgwennu, Y Cwis Llyfrau, Eisteddfod yr Urdd, Eisteddfodau lleol yn rheolaidd. Ysgol Edern oedd pencampwyr Darllen Dros Gymru Blwyddyn 5 a 6 2018. Llwyddodd y Parti Cerdd Dant a'r Parti Llefaru i gyrraedd Gaerdydd eleni a pherfformio yn rhagbrofion Eisteddfod yr Urdd gyda balchder.</li> <li>• Trefnodd y Cyngor Ysgol ddiwrnod gwisgo fel cymeriad o lyfr Cymraeg ar ddiwrnod y llyfr a diwrnod coch i ddathlu Dydd Gwyl Dewi.</li> </ul>			
<p><b>wedi poblogeiddio'r Gymraeg trwy gyfrwng technoleg a chyfryngau gwahanol</b></p> <p><i>Nodwch eich barn trwy roi tic gyferbyn â'r blwch perthnasol</i></p>			

<b>Tystiolaeth</b>			
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r Ysgol yn rhannu gweithareddau efo'r rhieni a'r gymuned ehangach drwy gyfrwng gwefan yr ysgol, Trydar a'r gweplyfr.</li> <li>Bydd y Cyngor Ysgol yn rhoi cyflwyniad blynyddol i rieni am bwysigrwydd siarad Cymraeg a phwysigrwydd dwyieithrwydd drwy gyfrwng Power Point.</li> </ul>			
<b>wedi cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau data'r gwe iaith</b> <i>Nodwch eich barn trwy roi tic gyferbyn â'r blwch perthnasol</i>			
<b>Tystiolaeth</b>			
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mi wnaeth y Cyngor Ysgol drafod data y gwe iaith yn ystod tymor yr Hydref gan lunio targedau / camau gweithredu bwriadus.</li> <li>Rydym yn chwarae cerddoriaeth Cymraeg yng nghyntedd yr ysgol yn ddyddiol gan sicrhau fod pob dosbarth yn gwybod pwy sy'n canu a beth yw enwau'r caneuon.</li> <li>Rydym wedi cael cyflenwad o DVD's Cymraeg ar gyfer amser chwarae gwlyb a'r clwb brecwast.</li> <li>Yn ychwanegol at hyn penderfynwyd rhoi cerddoriaeth Cymraeg ymlaen yn y dosbarthiadau pan yn gwneud gweithgareddau creadigol.</li> </ul>			

<b>Rhieni</b>			
(Nodwch eich barn ynglŷn â gweithredu'r gofynion yn y blychau isod h.y. llwyddiannus ac effeithiol iawn/wedi profi llwyddiant/heb gael effaith amlwg			
<b>Wrth weithredu a chyflawni gofynion y Siarter Iaith, mae'r ...</b>	<b>arferion/anerchiadau wedi'u cyflwyno ond heb gael effaith amlwg</b>  <i>h.y. dim tystiolaeth bendant o newid mewn agweddau ayyb</i>	<b>arferion/cyflwyniadau wedi profi llwyddiant</b>  <i>h.y. tystiolaeth o newid mewn agweddau ayyb ond bod rhagor o waith i'w gyflawni</i>	<b>arferion/cyflwyniadau wedi profi'n rhai llwyddiannus ac effeithiol iawn</b>  <i>h.y. wedi cael effaith gadarnhaol wrth feithrin agweddau iach ac wrth gynyddu defnydd o'r Gymraeg ayyb</i>
<b>rhieni/gwarchodwyr yn deall manteision dwyieithrwydd a gwerth y Gymraeg yn y Gymru fodern</b>  <i>Nodwch eich barn trwy roi tic gyferbyn â'r blwch perthnasol</i>			
<b>Tystiolaeth sy'n cadarnhau'r farn sydd wedi'i gosod ac effaith y gweithredu</b>			

***e.e. ymatebion rhieni, holiaduron, sylwadau ar Trydar, Gweplyfr ayyb***

- Cyngor ysgol i roi cyflwyniad PP i rieni am bwysigrwydd siarad Cymraeg a phwysigrwydd dwyieithrwydd. Ffocysu ar yr hyn a wneir yn Ysgol Edern i hyrwyddo hyn.
- Tystiolaeth ar y gweplyfr, Trydar a gwefan yr ysgol o weithgareddau'r ysgol ac ymatebion rhieni yn cael eu nodi'n glir ar y gwefannau hyn.

**rhieni/gwarchodwyr yn cael eu hannog i ddefnyddio/dysgu'r iaith ac yn gwybod am y ddarpariaeth gyfredol ar gyfer dysgu'r Gymraeg**

*Nodwch eich barn trwy roi tic gyferbyn â'r blwch perthnasol*

**Tystiolaeth sy'n cadarnhau'r farn sydd wedi'i gosod ac effaith y gweithredu  
*e.e. ymatebion rhieni, holiaduron, sylwadau ar Trydar, Gweplyfr ayyb***

- Gweithgareddau cartref / ysgol i hybu ymwybyddiaeth rhieni o draddodiadau a diwylliant Cymraeg.
- Rhannu gwybodaeth efo'r rhieni di-Gymraeg am gyrsiau oedolion a rhannu gwybodaeth am y Siarter Iaith iddynt.
- Rhannu'r llyfr 'Geirfa Cymraeg / Saesneg' i'r rhieni di-Gymraeg er mwyn magu eu hyder yn yr iaith. Annog eu plant i helpu eu rhieni adref i adolygu'r eirfa yn y llyfr.
- Dosbarthu taflen wybodaeth am apps defnyddiol Cymraeg

**Llywodraethwyr**

*(Nodwch eich barn ynglŷn â gweithredu'r gofynion yn y blychau isod h.y. llwyddiannus ac effeithiol iawn/wedi profi llwyddiant/heb gael effaith amlwg ayyb)*

<b>Wrth gyflawni'r gofynion mae/r ...</b>	<b>angen rhagor o gefnogaeth ac ymyrraeth gan y Llywodraethwyr</b>	<b>ymyrraeth/cefnogaeth gan y Llywodraethwyr yn gadarnhaol/wedi profi llwyddiant</b>	<b>ymyrraeth/cefnogaeth gan y Llywodraethwyr wedi profi'n llwyddiannus ac effeithiol iawn</b>
<b>Ilywodraethwyr wedi manteisio ar gyfleoedd i gefnogi a bod yn weithredol wrth yrru gwaith y Siarter Iaith ymlaen</b>			

**Tystiolaeth sy'n cadarnhau'r gweithredu**

- Cafodd y Llywodraethwr dynodedig y SI gyfle i drafod data'r gwe iaith gyda'r Pennaeth yn ystod Tymor yr Hydref gan gyfrannu at lunio'r cynllun gweithredu.
- Ar ddiwedd y flwyddyn ysgol bydd aelodau o'r Cyngor Ysgol yn creu cyflwyniad i'r Llywodraethwyr sy'n cynnwys data'r gwe iaith, targedau am y flwyddyn, y gweithgareddau sydd wedi eu cyflawni i wella'r data ac yna canlyniadau'r holiaduron ar ddiwedd y flwyddyn.
- Mae'r Llywodraethwyr yn derbyn adroddiad llafar ar ddatblygiad y Siarter Iaith yn erbyn y camau gweithredu yn dymhorol.
- Mae'r Llywodraethwyr yn cefnogi pob gweithgaredd sydd yn cael ei drefnu gan y Siarter Iaith.
- Mae ethos Gymraeg naturiol a bwrlwm amlwg dros y Gymraeg yn yr ysgol gyda'r plant, yr holl staff a'r Llywodraethwyr yn ymfalchio'n eu hetfeddiaeth ac yn gweithio'n galed i hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y dosbarth, ar fuarth yr ysgol ac yn y gymuned ehangach.

## Gweithlu

(Nodwch eich barn ynglŷn â gweithredu'r gofynion yn y blychau isod h.y. llwyddiannus ac effeithiol iawn/wedi profi llwyddiant/heb gael effaith amlwg ayyb)

	<b>ar drac/wedi'u cynnal ond heb gael effaith amlwg</b>	<b>Wedi profi llwyddiant</b>	<b>wedi sicrhau canlyniadau effeithiol a llwyddiannus iawn</b>
<b>Mae'r hyfforddiannau staff/gweithdrefnau ...</b>	<i>h.y. dim tystiolaeth bendant o newid mewn agweddau ayyb</i>	<i>h.y. tystiolaeth o newid mewn agweddau ayyb ond bod rhagor o waith i'w gyflawni</i>	<i>h.y. wedi cael effaith gadarnhaol wrth feithrin agweddau iach ac wrth gynyddu defnydd o'r Gymraeg ayyb</i>
<b>wedi cael effaith amlwg ar fedrau a defnydd iaith y plant yn y cyfnodau anffurfiol h.y. cyfnodau anffurfiol yn y dosbarth/ar y coridor/y neuadd ginio/ar y buarth a thu hwnt i fuarth yr ysgol</b>			

**Tystiolaeth sy'n cadarnhau'r farn** sydd wedi'i gosod ac **effaith gweithredu'r hyfforddiannau** e.e. trafodaeth gyda gweithlu'r ysgol a'r staff ategol â'u rôl wrth ddylanwadu'n gadarnhaol ar ddata'r gwe iaith

- Yn dilyn hyfforddiant, y staff i raeadru a rhannu arferion da yn ol yn yr ysgol mewn cyfarfodydd staff.
- Hyfforddiant Heriau yn ardaloedd yn y Cyfnod Sylfaen a hyfforddiant CS amrywiol eraill.
- Hyfforddiant Elsa i dargedu disgyblion gydag phroblemau emosiynol a chymdeithasol – ffocws ar iaith a chyfathrebu.
- Hofforddiant appiau TGCh, g-suite a google drive.
- Mae'r gweithlu'n derbyn arweiniad cyson am ddisgwyliadau'r Siarter Iaith (tu mewn a thu allan i'r dosbarth) ac oherwydd disgwyliadau uchel gan y gweithlu o allu'r plant i siarad Cymraeg, mae bron pob un plentyn yn siarad Cymraeg erbyn BI 1.

- Mae holl staff yr ysgol yn modelu iaith yn gyson sy'n arwain at godi safon y Gymraeg a ddefnyddir gan y disgyblion.
- Grwpiau hwb wedi rhoi ffocws ar ddatblygu cywirdeb llafar disgyblion yn ystod y flwyddyn.

**wedi sicrhau cydweithio efo ysgolion eraill/mudiadau ac asiantaethau gwahanol**

**Tystiolaeth sy'n cadarnhau'r farn sydd wedi'i gosod ac effaith y cydweithio;**

- Mae cydweithio effeithiol rhwng ysgolion y dalgylch wrth fynd ati i ddysgu idiomau Cymraeg amrywiol.
- Mae Ysgol Edern ac Ysgol Nefyn yn cydweithio y tymor hwn– ffocws y cydweithio yw dadansoddi barddoniaeth Cymraeg.
- Bu Ysgol Edern ac Ysgol Pont y Gof yn cydweithio Tymor y Gwanwyn yn trefnu taith i Gaerdydd. Cafwyd taith arbennig iawn.
- Bu'r dalgylch yn cydweithio ar thema fesul Cyfnod Allweddol yn ystod Tymor yr Haf.

**Sefyllfa ieithyddol yr ysgol**

**Yn erbyn un o'r datganiadau ym mhob blwch isod, nodwch gyda ✓ y cymal sy'n adlewyrchu sefyllfa ieithyddol eich ysgol chi;**

Bron pob un o'r disgyblion â pharodrwydd i siarad yn hyderus a chefnogi defnydd cyson o'r Gymraeg <b>gyda'r athrawon, gweithlu, cyd ddisgyblion ac ymwelwyr i'r ysgol- o fewn y dosbarth</b> (Blwyddyn 2 ymlaen)	✓
Mwy na hanner o'r disgyblion â pharodrwydd i siarad yn hyderus a chefnogi defnydd cyson o'r Gymraeg <b>gyda'r athrawon, gweithlu, cyd ddisgyblion ac ymwelwyr i'r ysgol- o fewn y dosbarth</b> (Blwyddyn 2 ymlaen)	
Mwy na hanner o'r disgyblion <b>gydag anogaeth</b> , yn barod ac yn gynyddol hyderus i siarad yn y Gymraeg gyda'r <b>athrawon, gweithlu, cyd ddisgyblion ac ymwelwyr i'r ysgol- o fewn y dosbarth</b> (Blwyddyn 2 ymlaen)	
Llai na hanner o'r disgyblion â pharodrwydd, ac yn gynyddol hyderus i siarad a chefnogi defnydd cyson o'r Gymraeg gyda'r athrawon, gweithlu'r ysgol, cyd ddisgyblion ac ymwelwyr <b>o fewn y dosbarth</b> (Blwyddyn 2 i fyny)	
Llai na hanner o'r disgyblion <b>gydag anogaeth</b> , yn barod ac yn hyderus i siarad yn y Gymraeg <b>gyda'r athrawon, gweithlu, cyd ddisgyblion ac ymwelwyr i'r ysgol- o fewn y dosbarth</b> (Blwyddyn 2 ymlaen)	

Fawr neb/ychydig iawn o'r plant yn defnyddio'r Gymraeg gyda'r athrawon, gweithlu'r ysgol, cyd ac ymwelwyr o <b>fewn y dosbarth</b> (Blwyddyn 2 i fyny)	
--	--

Bron pob un o'r disgyblion â pharodrwydd i siarad yn hyderus a chefnogi defnydd cyson o'r Gymraeg <b>gyda'r athrawon, gweithlu, cyd ddisgyblion ac ymwelwyr i'r ysgol</b> - ar y coridor, yn y neuadd ginio ac ar fuarth yr ysgol (Blwyddyn 2 i fyny)	√
Mwy na hanner o'r disgyblion â pharodrwydd ac yn gynyddol hyderus i siarad a chefnogi defnydd cyson o'r Gymraeg gyda'r <b>athrawon, gweithlu, cyd ddisgyblion ac ymwelwyr i'r ysgol</b> - ar y coridor, yn y neuadd ginio ac ar fuarth yr ysgol (Blwyddyn 2 ymlaen)	
Mwy na hanner o'r disgyblion <b>gydag anogaeth</b> , yn barod ac yn gynyddol hyderus i siarad yn y Gymraeg gyda'r <b>athrawon, gweithlu, cyd ddisgyblion ac ymwelwyr i'r ysgol</b> - ar y coridor, yn y neuadd ginio ac ar fuarth yr ysgol (Blwyddyn 2 ymlaen)	
Llai na hanner o'r disgyblion â <b>pharodrwydd ac yn gynyddol hyderus</b> i siarad a chefnogi defnydd o'r Gymraeg gyda'r <b>athrawon, gweithlu, cyd ddisgyblion ac ymwelwyr i'r ysgol</b> - ar y coridor, yn y neuadd ginio ac ar fuarth yr ysgol (Blwyddyn 2 ymlaen)	
Llai na hanner o'r plant <b>gydag anogaeth</b> , yn barod i ddefnyddio'r Gymraeg <b>gyda'r athrawon, gweithlu, cyd ddisgyblion ac ymwelwyr i'r ysgol</b> - ar y coridor, yn y neuadd ginio ac ar fuarth yr ysgol (Blwyddyn 2 ymlaen)	
Fawr neb/ychydig iawn o'r plant yn defnyddio'r Gymraeg <b>gyda'r athrawon, gweithlu, cyd ddisgyblion ac ymwelwyr</b> - ar y coridor, yn y neuadd ginio ac ar fuarth yr ysgol (Blwyddyn 2 ymlaen)	

### Pan fo'r sefyllfa ieithyddol yn caniatâu...

Bron pob un o'r disgyblion â pharodrwydd i siarad yn hyderus a chefnogi defnydd cyson o'r Gymraeg <b>tu hwnt i fuarth yr ysgol</b> (Blwyddyn 2 i fyny)	√
Mwy na hanner o'r disgyblion â pharodrwydd ac yn gynyddol hyderus i siarad a chefnogi defnydd cyson Gymraeg <b>tu hwnt i fuarth yr ysgol</b> (Blwyddyn 2 ymlaen)	
Mwy na hanner o'r disgyblion <b>gydag anogaeth</b> , yn barod ac yn gynyddol hyderus i siarad yn y Gymraeg tu hwnt i fuarth yr ysgol (Blwyddyn 2 ymlaen)	
Llai na hanner o'r disgyblion â pharodrwydd ac yn gynyddol hyderus i siarad a chefnogi defnydd cyson o'r Gymraeg tu hwnt i fuarth yr ysgol (Blwyddyn 2 ymlaen)	
Llai na hanner o'r plant <b>gydag anogaeth</b> â pharodrwydd i ddefnyddio a chefnogi defnydd o'r Gymraeg gyda'r athrawon, gweithlu, ac ymwelwyr i'r ysgol- tu hwnt i fuarth yr ysgol (Blwyddyn 2 ymlaen)	
Fawr neb/ychydig iawn o'r plant yn defnyddio'r Gymraeg tu hwnt i fuarth yr ysgol	



(Blwyddyn 2 ymlaen)

### Ffocws-Staff dysgu

Pob aelod o'r staff yn siarad yn rhugl ac yn hyderus ac yn gyson yn y Gymraeg gyda'r gweithlu a'r disgyblion mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol o fewn a thu hwnt i fuarth yr ysgol ( 100%)	√
Y mwyafrif o'r staff yn gwneud defnydd cyson o'r Gymraeg gyda'r gweithlu a'r disgyblion mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol o fewn a thu hwnt i fuarth yr ysgol ( tua 60%)	
Y mwyafrif o'r staff yn gwneud defnydd cyson o'r Gymraeg gyda'r gweithlu <b>ond nid</b> efo'r disgyblion mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol o fewn a thu hwnt i fuarth yr ysgol ( tua 60%)	
Y lleiafrif o'r staff yn gwneud defnydd cyson o'r Gymraeg gyda'r gweithlu a'r disgyblion mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol o fewn a thu hwnt i fuarth yr ysgol ( tua 40%)	
Y lleiafrif o'r staff yn gwneud defnydd cyson o'r Gymraeg gyda'r gweithlu <b>ond nid</b> efo'r disgyblion mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol o fewn a thu hwnt i fuarth yr ysgol ( tua 40%)	
Prin neb o'r staff yn gwneud defnydd cyson o'r Gymraeg gyda'r gweithlu a'r plant mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol o fewn a thu hwnt i fuarth yr ysgol ( llai na 10%)	

### Ffocws- Staff ategol

Pob aelod o'r staff yn siarad yn rhugl ac yn hyderus ac yn gyson yn y Gymraeg gyda'r gweithlu a'r disgyblion mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol o fewn a thu hwnt i fuarth yr ysgol (100%)	√
Y mwyafrif o'r staff yn gwneud defnydd cyson o'r Gymraeg gyda'r gweithlu a'r disgyblion mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol o fewn a thu hwnt i fuarth yr ysgol (tua 60%)	
Y mwyafrif o'r staff yn gwneud defnydd cyson o'r Gymraeg gyda'r gweithlu <b>ond nid</b> efo'r disgyblion mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol o fewn a thu hwnt i fuarth yr ysgol ( tua 60%)	
Y lleiafrif o'r staff yn gwneud defnydd cyson o'r Gymraeg gyda'r gweithlu a'r disgyblion mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol o fewn a thu hwnt i fuarth yr ysgol ( tua 40%)	
Y lleiafrif o'r staff yn gwneud defnydd cyson o'r Gymraeg gyda'r gweithlu <b>ond nid</b> efo'r disgyblion mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol o fewn a thu hwnt i fuarth yr ysgol ( tua 40%)	
Prin neb o'r staff yn gwneud defnydd cyson o'r Gymraeg gyda'r gweithlu a'r plant mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol o fewn a thu hwnt i fuarth yr ysgol	

( llai na 10%)

<b><u>Arfarnu gweithrediad y Siarter Iaith</u></b>	Nodwch gyda √
Mwyafrif o'r gweithgareddau/arferion wedi profi'n rhai llwyddiannus ac effeithiol iawn? <b>(60% +)</b> <b>AUR</b>	√
Mwyafrif o'r gweithgareddau/arferion wedi profi llwyddiant? <b>(60% +)</b> <b>ARIAN</b>	
Mwyafrif o'r gweithgareddau/arferion wedi'u gweithredu ond heb gael effaith amlwg <b>(60% +)</b> <b>EFYDD</b>	